# PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS SENEDD CYMRU
# Rhwystrau rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

## Ymateb i'r ymgynghoriad gan Gyngor Sir Ceredigion

### Cefndir

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol eu hadroddiadau statudol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Mae'r adroddiadau'n crynhoi'r gwaith y maent wedi ei gyflawni o dan y Ddeddf rhwng mis Mai 2017 a mis Mai 2020. Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn cynnal ymchwiliad i'r adroddiadau hyn.

### 1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.

Yn gyffredinol, teimlir bod gan Gyrff Cyhoeddus ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r Ddeddf a'i goblygiadau. Fodd bynnag, teimlir nad yw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Ddeddf gystal. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal nifer o weithdai a sesiynau hyfforddi i Aelodau Etholedig a staff ynglŷn â gofynion y Ddeddf a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol. Sefydlwyd gweithgor corfforaethol, ac mae'r holl ddulliau cynllunio busnes, adrodd a gwneud penderfyniadau wedi'u strwythuro o amgylch yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

### 2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus er mwyn gweithredu'r Ddeddf a pha mor effeithiol y cawsant eu defnyddio.

Nid oes unrhyw gyllid ar gael i Gyrff Cyhoeddus weithredu'r Ddeddf. Mae'r Cyngor felly wedi defnyddio adnoddau staff presennol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf, fel yr amlinellir uchod, ynghyd â defnyddio dogfennau canllaw ac enghreifftiau o'r arferion gorau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

### 3. Cymorth a ddarperir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r holl gymorth a ddarparwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hyd yn hyn wedi cael ei groesawu, er bod rhai o'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn ddiweddar wedi bod yn anodd eu deall. Mae gwrthdaro rhwng elfen orfodi rôl y Comisiynydd a'r elfen gymorth, cyngor ac ymgysylltu, ac efallai y byddai'n well gwahanu'r rhain yn y dyfodol. Byddem yn croesawu rôl fentora 'gweithio gyda'n gilydd' wrth symud ymlaen.

### 4. Rôl arwain Llywodraeth Cymru.

Teimlir bod adrannau Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn seilos ac mae angen i hyn wella'n sylweddol cyn y gellir ymgorffori'r Ddeddf ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus. Nid yw'r natur adrannol/seilo yn ogystal â chyfnod byr grantiau Llywodraeth Cymru yn darparu tirlun effeithiol ar gyfer dulliau arloesol o wneud gwaith ataliol tymor hir. Mae diffyg integreiddio prosesau a deddfwriaethau gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y tymor hir.

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

Mae cylchoedd cyllidebau blynyddol, cylchoedd etholiadol, pwysau oherwydd llymder a newidiadau i wasanaethau cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd meddwl yn y tymor hir. Mae'n anodd bod â'r capasiti i arloesi pan rydym yn rheoli galw cynyddol. Yn ogystal, nid yw'r modd y caiff llwyddiant ei fesur yn ddefnyddiol - mae hyn yn canolbwyntio ar allbynnau tymor byr yn bennaf yn hytrach na chanlyniadau tymor hwy ac atal problemau. Mae gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn tynnu sylw. Sut allwn ni weithredu gan ganolbwyntio ar y tymor hir pan mae'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol er mwyn dangos gwelliant mesuradwy? (Gobeithio y bydd y Bil Llywodraeth Leol yn egluro ac yn gwella'r sefyllfa). Mae'n heriol sicrhau'r cydbwysedd rhwng atebolrwydd am gyflawni'r Ddeddf a chaniatáu lle i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i'w weithredu. Yn ogystal â'r rhwystrau a nodir uchod, mae'r pandemig presennol yn golygu y bydd mwy o bwysau'n cael eu rhoi ar adnoddau sydd eisoes yn brin iawn. Mae rhai camau gweithredu mewnol i wneud cynnydd pellach o ran integreiddio'r Ddeddf i mewn i arferion beunyddiol a gynlluniwyd ar gyfer eleni wedi'u hatal oherwydd bod staff wedi cael eu hadleoli yn sgil yr argyfwng Covid.

**6. Sut i sicrhau y gweithredir y Ddeddf yn llwyddiannus yn y dyfodol.**

Mae cyllid hirdymor ar gyfer cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghyd ag arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y Ddeddf. Mae'r tirlun gweithredu yn gymhleth iawn, felly mae angen gwelliannau i lywodraethu a seilwaith. Mae angen i'r modd y caiff llwyddiant ei fesur newid o ganlyniadau tymor byr i ganlyniadau tymor hwy ac atal problemau. Mae angen i gyfathrebu o amgylch y Ddeddf wella hefyd er mwyn helpu gyda'r newid ymddygiad sydd ei angen cyn y gall y Ddeddf lwyddo i gyflawni ei ddyheadau hirdymor.